# AELODAETH RHWYDWAITH SFP

## Meini prawf ar gyfer ymuno â'r Rhwydwaith

Mae'r Rhwydwaith SFP yn galluogi pobl a lleoedd i rannu heriau, archwilio datrysiadau ymarferol a datblygu arfer gorau ym mhob agwedd ar fwyd cynaliadwy. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaethau bwyd cymwys sy'n cynrychioli ac yn gweithio ar ran dinas, tref, bwrdeistref, sir neu ranbarth yn y DU. Rhaid i'r bartneriaeth fod yn un traws-sector, a meddu ar weledigaeth a chylch gwaith a rennir sy'n mynd i'r afael â phob un o 6 o faterion bwyd allweddol SFP.

Isod, ceir meini prawf SFP o ran aelodaeth y rhwydwaith. Ar sail profiad ein rhwydwaith, credwn mai bod â'r hyn a ganlyn ar waith yw'r awgrym gorau, fel arfer, o bartneriaeth bwyd effeithiol. Fodd bynnag, os ydych chi o'r farn fod eich partneriaeth bwyd (neu rwydwaith cyfatebol) yn cefnogi'r un weledigaeth drwy gydweithredu, ac yn cyflawni'r un effaith dros ein 6 mater bwyd allweddol, ond drwy ddefnyddio dull gwahanol, mae'n bosibl y byddwn yn dal yn ystyried eich cais. Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais am aelodaeth ar sail dull amgen i'n meini prawf, cysylltwch â ni ar info@sustainablefoodplaces i gael sgwrs cyn cyflwyno cais.

**Meini Prawf Aelodaeth**

1. **Enwi unigolyn arweiniol** ar gyfer y bartneriaeth fwyd
2. Dogfen **cylch gorchwyl** – gan gynnwys:
   - Enw'r bartneriaeth fwyd
   - Amlinellwch eich gweledigaeth (rhestr o bwyntiau bwled neu baragraff cryno). Rhaid bod yn glir eich bod chi'n bwriadu gweithio ym mhob un o'r 6 maes SFP allweddol.
   - Manylion o drefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt, e.e. cadeirydd, grŵp llywio a gweithgorau (gyda manylion am aelodau) os yw'n berthnasol.
3. **Rhestr o aelodau a/neu rhanddeiliaid.** Rhaid i hyn gynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a'r trydydd sector, a'r sector preifat os yw'n bosibl (neu ddangos sut rydych chi'n bwriadu ymgysylltu â nhw). Rydyn ni'n disgwyl gweld cyfranogiad ystod o sefydliadau sy'n arddangos gwaith neu waith sydd wedi'i drefnu ar draws 6 o faterion allweddol SFP (neu sut rydych chi'n bwriadu ymgysylltu â nhw).
4. **Cofnodion cyfarfodydd** i ddangos tystiolaeth fod y bartneriaeth wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ac yn weithredol ers o leiaf 6 mis. Byddem fel arfer yn disgwyl i bartneriaethau neu grwpiau cyfatebol gwrdd o leiaf 4 gwaith y flwyddyn. Gallech gynnwys manylion am gyfarfodydd gweithgorau neu ddigwyddiadau ymgysylltu i gefnogi eich cais.
5. **Cynllun Gwaith Partneriaeth Fwyd** ar gyfer y 6 mis nesaf sy'n cynnwys manylion am ba bobl neu sefydliadau sy'n gwneud y gwaith. Dylai hyn gynnwys gwaith perthnasol aelodau'r bartneriaeth ochr yn ochr â'r rhai mewn rôl cydlyniad yn y bartneriaeth. Sylwch, os byddwch chi'n cyflwyno cynllun gwaith neu strategaeth tymor hirach, rhaid i hyn gynnwys cynllun gwaith yn amlinellu'r 6 mis nesaf yn benodol. (Gweler isod i gael rhagor o gyngor).
6. **Trosolwg o'r System Fwyd** yn trafod gweithrediad y system fwyd presennol, cyfleoedd, ac asedau yn eich lleoliad. Does dim angen i hyn fod yn wybodaeth newydd na chael ei chyflwyno'n ffurfiol; defnyddiwch ddogfennau, testunau neu ddiagramau sydd gennych ar

waith eisoes yn eich partneriaeth os yn berthnasol. Fodd bynnag, rhaid i'r trosolwg hwn gynrychioli cydfarn a gwybodaeth eich grŵp, yn hytrach nac unigolyn yn paratoi ar gyfer y cais hwn. (Gweler isod i gael rhagor o gyngor).

## Sut i wneud cais

Rydym yn cynnal dau gylch ymgeisio am aelodaeth bob blwyddyn, un ym mis Mawrth a'r llall ym mis Hydref. 17 Mawrth yw'r dyddiad cau nesaf i wneud cais am aelodaeth. I wneud cais, anfonwch ddogfennau atom neu fathau eraill o dystiolaeth (e.e. tudalennau ar-lein) sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni pob un o'n meini prawf. Lle bo'n berthnasol, rydym yn eich annog i gyflwyno deunyddiau sydd eisoes yn bodoli yn eich partneriaeth (e.e. dogfennau llywodraethu neu strategaeth) yn hytrach na chreu dogfennau ar gyfer y cais hwn.

Hefyd, llenwch y ffurflen gais fer sydd ar gael ar https://www.sustainablefoodplaces.org/get_involved/become_a_member/.

Cyflwynwch eich cais, gan gynnwys pob dogfen i info@sustainablefoodplaces.org erbyn y dyddiad cau isod.

Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno, bydd ein panel aelodaeth yn asesu eich cais ac yn cysylltu â chi o fewn 2-3 wythnos o'r dyddiad cau. Os na fyddwch chi'n llwyddiannus, byddwn yn rhoi cyngor sylfaenol ar sut y gallech weithio tuag at ddod yn aelod yn y dyfodol.

## Cynllun Gwaith Partneriaeth Fwyd

Cynllun gwaith yw hwn er mwyn datblygu eich partneriaeth fwyd; gan amlinellu'r camau gweithredu y byddwch yn eu rhoi ar waith, a'r targedau rydych chi'n bwriadu eu bodloni ar eich taith at greu partneriaeth fwyd cryf a chadarn.

Dyma rai cwestiynau allweddol i'w gofyn ar y pwynt yma:

- Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol?
- Sut fyddwn ni'n ymgysylltu ac yn trafod â'n cymuned a'n rhanddeiliaid?
- Sut fyddwn ni'n sicrhau cyfranogiad ar lefel uwch gan yr awdurdod lleol?
- Sut fyddwn ni'n sicrhau bod y bobl leol a'r rhanddeiliaid yn teimlo synnwyr cryf o berchnogaeth?
- Sut fyddwn ni'n cynnwys pobl nad ydynt yn cael eu clywed fel arfer?
- Sut fyddwn ni'n sicrhau bod y bartneriaeth fwyd yn gynrychioladol?
- Pa gamau sydd angen i ni eu rhoi ar waith i ddatblygu ein cynllun gweithredu ar gyfer pob un o 6 o feysydd SFP?

Argymhellwn eich bod chi'n taro golwg ar Datblygu Cynllun Gwaith ar gyfer Partneriaeth i gael arweiniad ar baratoi eich cynllun gwaith.

## Trosolwg o'r System Fwyd

Cofnod sylfaenol yw hwn o'ch gweithgareddau / asedau presennol ledled y system fwyd leol. Ei nod yw bod yn rhagflaenydd cyn gallu nodi camau gweithredu i'r dyfodol, a datblygu cynllun gweithredu. Gall fod yn syniad da defnyddio 6 o feysydd allweddol SPF fel fframwaith. Gellid cyflawni'r trosolwg drwy lawrlwytho'r wybodaeth bresennol gan randdeiliaid allweddol mewn grwpiau cyfarfodydd llywio,

neu os yw adnoddau'n caniatáu, efallai y byddwch yn awyddus i gynnal gwaith mapio bwyd mwy dwys, arolwg dinasyddion neu gynnal grwpiau ffocws.

Gall y Trosolwg o'r System Fwyd gynnwys gwybodaeth ar:

- Gweithgareddau presennol ar wastraff bwyd, caffael bwyd, tlodi bwyd, mentrau bwyd cymunedol, bwyd a'r hinsawdd.
- Cyd-destun polisi lleol
- Rhanddeiliaid allweddol
- Canlyniadau arolwg dinasyddion
- Ymarfer Mapio Gwe Fwyd

Argymhellwn eich bod chi'n edrych ar adran Trosolwg o'r System Fwyd yn y Pecyn Cymorth SFP i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad. Mae'n cynnwys y canllawiau hyn: Mapio'r System Fwyd, Arolygon Bwyd, Mapio Polisïau Bwyd.